# SL(6)365 – Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Rhif 2) (Cymru) 2023

## Cefndir a diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio amryw Reoliadau sy'n gwneud darpariaeth ynghylch cyllid myfyrwyr, ac mewn cysylltiad ag ef.

Gwneir diwygiadau —

- (a) i'r enwau yr adwaenir tiriogaethau tramor Prydeinig penodol wrthynt bellach, er mwyn bod yn gyson â Deddf Cenedligrwydd Prydeinig 1981, a

- ((b) sy'n ymwneud â statws mewnfudo dinasyddion penodol o Affganistan o ganlyniad i newidiadau a wnaed i'r rheolau mewnfudo.

Gwneir diwygiadau hefyd i Reoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2017 a Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2018 er mwyn datgymhwyso terfynu cymhwystra yn gynnar ar gyfer categorïau penodol o fyfyrwyr cymwys o dan amgylchiadau pan fo person wedi dod yn ddinesydd Prydeinig neu'n ddinesydd Gwyddelig.

## Gweithdrefn

Negyddol.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Gall y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddyddiau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) mewn cyfnod o doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gosodwyd gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Nodir y pwyntiau a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. **Rheol Sefydlog 21.2(vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn**.

   Yn rheoliad 11, mae gwahaniaeth bach iawn rhwng y testun Cymraeg a'r testun Saesneg. Yn y testun Saesneg, mae'r paragraff newydd (12G) i'w fewnosod ar ôl "paragraff (12F)" ond yn y testun Cymraeg fe'i disgrifir fel pe bai wedi'i fewnosod ar ôl "paragraff 12(F)" yn rheoliad 110 o Reoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2017.

2. **Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod y drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol**

Yn Rheoliad 22(b) mae ansicrwydd a yw'r disgrifiad o leoliad y diwygiad i Reoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Graddau Meistr Ôl-raddedig) (Cymru) 2019 yn gywir, neu a yw'r is-baragraffau newydd wedi'u rhifo'n anghywir. Os yw'r is-baragraffau newydd i'w mewnosod ar ôl "is-baragraff (ii)" gan y gwelliant hwn, dylent fod wedi cael eu rhifo fel is-baragraffau "(iia)" a "(iib)" yn hytrach na "(ia)" a "(ib)" fel y darperir ym mharagraff 7.22(3) o'r Canllaw i Ddrafftio Deddfau i Gymru ar gyfer rhifo testun a fewnosodwyd.

Roedd diwygiad cyfochrog yn rheoliad 14(b), fodd bynnag, yn mewnosod is-baragraffau (ia) a (ib) newydd ar ôl "is-baragraff (i)" ym mharagraff 2ZA(4)(ea) o Atodlen 2 i Ddeddf Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2018.
Felly, mae amheuaeth hefyd ai'r bwriad oedd i reoliad 22(b) fewnosod yr is-baragraffau (ia) a (ib) newydd ar ôl "is-baragraff (i)" yn hytrach nag "is-baragraff (ii)" ym mharagraff 2A(4)(da) o Atodlen 2 i Reoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Graddau Meistr Ôl-raddedig) (Cymru) 2019. Mae angen eglurhad pellach ynglŷn â bwriad y gwelliant.

## Rhinweddau: craffu

Nodir y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**3. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Nodwn na fu unrhyw ymgynghori ffurfiol ar y Rheoliadau hyn. Yn benodol, nodwn y paragraff a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

*"Ni chynhaliwyd ymgynghoriad gan nad yw'r diwygiadau wedi deillio o newid mewn polisi ond o newid mewn terminoleg neu yn y rheolau mewnfudo ac i gywiro'r rheoliadau cymorth i fyfyrwyr i ddileu bwlch yn y ddarpariaeth fel sydd wedi'i chynnwys mewn deddfwriaeth."*

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**28 Mehefin 2023**